Canllawiau Ymrestru a Ffurflen Ymrestru

Canolfan Caerdydd ar Gyfer Addysg Gydol Oes, Ffordd Senghennydd, Caerdydd CF24 4AG
Ffôn: 029 2087 0000 Ffacs: 029 2066 8935 Ebost: DYSGU@caerdydd.ac.uk

Darllenwch y canllawiau ymrestru sydd yn dilyn a'r telerau ac amodau ar dudalen 75 cyn cwblhau'r ffurflen.

Pryd i ymrestru

Mae ymrestru ymlaen llaw yn orfodol ar gyfer rhai cyrsiau, ac fe ddylai hyn fod wedi ei nodi'n glir yn y prosbectws. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bydd angen cyfrif ar y system gyfrifiaduron, er mwyn i ni fedru trefnu cyfrif, enw defnyddiwr a chyfrinair ymlaen llaw. Os ydych am ymrestru ar unrhyw un o'r cyrsiau yn yr adran Gyfrifiadureg, rhaid i chi wneud hyn o leiaf bythefnos cyn dechrau'r cwrs.

Yn achos y cyrsiau eraill, gofynnwn i chi ymrestru cyn y cyfarfod cyntaf, os yw hyn yn bosib (gweler yr adran 'Sut i ymrestru' isod). Os nad ydych yn medru ymrestru ymlaen llaw am ryw reswm, dylech ymrestru yn y cyfarfod cyntaf.

Ymrestrwch cyn gynted â phosib oherwydd:

- Mae cyrsiau poblogaidd yn llenwi'n gyflym – sicrhewch eich lle drwy ymrestru'n gynnar.
- Gellir diddymu cyrsiau lle nad oes digon o bobl wedi ymrestru ymlaen llaw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos Ysgolion Undydd.
- Os yw eich cwrs wedi ei achredu, bydd ymrestru'n gynnar yn rhoi mwy o amser i chi gael cerdyn adnabod ar gyfer y llyfrgell cyn i'r cwrs ddechrau.

Sut i ymrestru

Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen ymrestru gan ddefnyddio priflythrennau a llofnodi'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen.
Ni ellir prosesu ffurflenni heb ddatganiad a lofnodwyd ac fe gânt eu dychwelyd er mwyn i chi eu llofnodi.

Ar ôl cwblhau eich ffurflen, gallwch ei dychwelyd ynghyd â'ch taliad drwy'r post neu ffacs, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir uchod.

Fel arall gallwch ymrestru'n bersonol yn y Ganolfan. Mae'r Dderbynfa ar agor o 9.00am tan 4.30pm ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener ac o 9.45am tan 4.30am ddydd Mercher – bydd ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr cyfeillgar yn medru ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych.

Mae'n flin gennym, ond ni allwn ar hyn o bryd dderbyn ymrestriadau a thaliadau dros y ffôn.

Ffioedd a Chymorth Ariannol

Dangosir y tâl llawn a gostyngol ar gyfer pob cwrs yn y manylion ar gyfer y cwrs yn y prosbectws neu ar y wefan. Mynnwch olwg ar yr Adran Cymorth Ariannol isod i weld a ydych yn gymwys ar gyfer derbyn cymorth ariannol neu dalu tâl gostyngol.

Cynllun Mynychu Cyrsiau'n Ddi-dâl CCAUC

Os ydych yn derbyn rhai o fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau neu os ydych wedi ymrestru fel un sydd yn chwilio am waith ers o leiaf chwe wythnos, efallai na fydd rhaid i chi dalu'r tâl am eich cwrs, o dan Gynllun Mynychu Cyrsiau'n Ddi-dâl CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru). Gall y rheini sy'n gymwys fynychu cyrsiau sydd wedi eu hachredu yn ddi-dâl, hyd at uchafswm o 110 o gredydau, gwerth £1,200 mewn unhyw un flwyddyn academaidd.Os carech gael y manylion llawn a ffurflen gais, cysylltwch â'r Ganolfan neu ewch at y wefan www.caerdydd.ac.uk/dysgu. Dylech anfon eich ffurflen gais am gael Mynychu Cyrsiau'n Ddi-dâl gyda'ch ffurflen ymrestru. Sylwch ei bod yn bosibl na fydd myfyrwyr sydd â chymhwyster AU yn barod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn.

Cynllun Bwrsariaethau Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes

Gall myfyrwyr o gefndir incwm is sy'n ymrestru ar gyrsiau penodol fod yn gymwys i gael bwrsariaeth i'w helpu i dalu cost astudio. Mae'r manylion llawn ar gael yn www.caerdydd.ac.uk/dysgu 029 2087 9147.

Consesiynau eraill

Os nad ydych yn gymwys ar gyfer Cynllun Mynychu Cyrsiau'n Ddi-dâl CCAUC, efallai eich bod serch hynny yn gymwys ar gyfer rhai o'r consesiynau a gynigir gan y Ganolfan. Mae tâl gostyngol ar gael i'r rheini sy'n derbyn:

- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dâl Tai
- Lwfans Chwilio am Waith
- Budd-dâl Treth Cyngor
- Credyd Treth Gwaith

Neu sydd yn:

- Bensiynwyr
- Wedi Ymrestru'n Ddiwaith

Gall fod tâl gostyngol ar gyfer myfyrwyr. Cysylltwch â'r Ganolfan am fanylion.

Cronfa Ariannol Wrth Gefn

Gall fod cymorth ariannol ar gael gan y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr sydd ar incwm isel a heb unrhyw brofiad blaenorol o Addysg Uwch. Am fwy o wybodaeth am bwy sy'n gymwys a sut i wneud cais cysylltwch â thîm y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn y Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr, 50 Parc y Plas, Caerdydd (ffôn 029 2087 5207 neu e-bost FCF@caerdydd .ac.uk).

Talu

Rhaid bod tâl gyda phob ymrestriad a dylid os yn bosib ymrestru cyn y cyfarfod cyntaf. Gellir derbyn ymrestriadau yn y cyfarfod cyntaf os oes lleoedd ar ôl o hyd, ond rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd wedi ymrestru ymlaen llaw. (gweler Sut a Phryd i ymrestru uchod).

Gellir talu drwy siec, archeb bost, arian parod, Switch/Maestro neu Visa/MasterCard neu drwy Archeb Brynu Masnach Fewnol Prifysgol Caerdydd. Gallwch roi manylion eich cerdyn ar y ffurflen neu anfon siec neu archeb bost gyda'r ffurflen. Peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post. Dylai sieciau fod yn daladwy i Brifysgol Caerdydd.

Os oes cyflogwr (heblaw Prifysgol Caerdydd) yn bwriadu talu am y cwrs ac yn dymuno cael anfoneb, dylai'r cyflogwr ddarparu archeb brynu i'r perwyl hwnnw. Dylech amgáu'r archeb brynu gyda'ch ffurflen ymrestru. Os na allwch amgáu archeb brynu, ffoniwch ni ar 029 2087 9147.

Os ydych yn hawlio eich ffi gyfan neu ran ohoni o Gynllun Mynychu Cyrsiau yn Ddi-dâl CCAUC, anfonwch Ffurflen gais am y Cynllun Mynychu Cyrsiau yn Ddi-dâl gyda'ch ffurflen ymrestru, ynghyd â phrawf o'ch statws fel un sydd yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn.

Y Dogfennau Angenrheidiol i Hawlio Ffi Ostyngol

Os ydych yn hawlio tâl gostyngol, dylech anfon y prawf perthnasol eich bod yn gymwys gyda'ch ffurflen ymrestru. Dylai'r dyddiad ar bob dogfen brawf fod o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y byddwch yn ymrestru. Cysylltwch â'r Ganolfan os oes amoch angen cyngor ar y math o brawf sy'n angenrheidiol.

Sylwch nad yw'r tâl gostyngol ar gael os telir am y cwrs gan noddwr.

Adran 1

Manylion personol myfyriwr/wraig

Teitl

Enw(au) cyntaf Cyfenw/Enw teuluol

Dyddiad geni

Cyfeiriad eich cartref presennol

Cod post

Rhif ffôn yn y dydd (gan gynnwys y cod rhanbarth)

Rhif ffôn gyda'r nos (gan gynnwys y cod rhanbarth)

Rhif ffôn symudol Cyfeiriad e-bost

A fuoch chi yn fyfyriwr/wraig yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes o'r blaen? (*ticiwch*) Do ❑ Naddo ❑

Os buoch chi, ac os yw manylion fel eich enw neu eich cyfeiriad wedi newid ers yr adeg honno, rhowch wybod i ni er mwyn i ni fedru cywiro'n cofnodion ac osgoi dyblygu.

Enw a/neu Gyfeiriad Blaenorol (gan gynnwys y cod post)

A ydych wedi ymrestru fel myfyriwr/wraig ar Ddiploma Addysg Uwch y Ganolfan? (*ticiwch*) Do ❑ Naddo ❑

A ydych yn fyfyriwr israddedig, yn fyfyriwr ôlraddedig, neu yn aelod o staff ym Mhrifysgol Caerdydd? (*ticiwch*)

israddedig ❑ ôlraddedig ❑ aelod o staff ❑

Os ydych, nodwch ym mha Ysgol/Adran

Os ydych yn fyfyriwr israddedig ac am ddilyn unrhyw fodiwl fel Modiwl Hunangynhaliol, dylech ymrestru mewn ffordd arall. Cysylltwch â'r ganolfan am gyngor.

Fyddwch chi o dan 18 oed ar ddechrau'r cwrs? Byddaf ❑ Na fyddaf ❑

Os ydyw chi wedi ticio Byddaf, yna bydd angen inni gysylltu â chi i gael manylion eich rhieni neu'ch gwarcheidwaid er mwyn ysgrifennu atyn nhw.

Y Cwrs/Cyrsiau y bwriedir eu dilyn

Rhif y cwrs	Teitl y cwrs	Dyddiad dechrau	Amser	Tâl taladwy

Manylion talu

Enw a chyfeiriad y person sy'n talu os yw'n wahanol i'r ymgeisydd:

Dull talu (ticiwch fel bo'n briodol):

Arian parod ❑ Siec/archeb bost (taladwy i Brifysgol Caerdydd) ❑ Nawdd gan Gyflogwr (amgaewch archeb brynu) ❑

Prifysgol Caerdydd (amgaewch archeb brynu Masnach Fewnol) ❑ Cerdyn Credyd/Debyd (rhowch y manylion isod) ❑

Ar gyfer Sieciau/Archebion Post, nodwch rif y siec/AB.

Ar gyfer taliadau drwy gerdyn, tynnwch o fy (ticiwch) Visa ❑ Master Card ❑ Switch/Maestro ❑

Rhif y Cerdyn ☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐

Dilys ers Dyddiad Dod i Ben Rhif Dosbarthu (ar gyfer Switch/Maestro)

Llofnod deilydd y cerdyn Date

CWBLHEWCH DUDALEN 3

At ddefnydd y swyddfa yn unig

Cod Awdurdodi			Rhif Myfyriwr		
	Llyth. Blaen	Dyddiad		Llyth. Blaen	Dyddiad
Derbyniwyd			Copi anabledd		
Gwiriwyd			Copi cyfrif cyfrifiadur		
Manylion prawf gostyngiad			Copi ar-lein Copi taith astudio		
Mynediad			Ffurflen dderbyn		
Til			Rhoddwyd ar SIMS		

Adran 2

Gosodir dyletswydd ar y Brifysgol i gasglu'r wybodaeth sy'n dilyn gan yr Asiantaeth Ystadegol ar gyfer Addysg Uwch (HESA). Os ydych yn fyfyriwr newydd neu os ydych wedi ymrestru yn y gorffennol ond heb roi'r manylion hyn o'r blaen, a wnewch chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen. Os ydych wedi ymrestru yn y gorffennol a bod y wybodaeth wedi newid ers y tro diwethaf, a wnewch chi roi'r manylion newydd. Os ydych wedi ymrestru yn y gorffennol, a dim byd wedi newid ers y tro diwethaf, ewch i ran 3.

Rhyw *(ticiwch)*

Gwryw ❑ Benyw ❑

Cefndir ethnig *(ticiwch)*

Gwyn ❑	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshi ❑	Cefndir Cymysg arall ❑
Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd ❑	Tseineaidd ❑	Cefndir Ethnig arall ❑
Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd ❑	Cefndir Asiaidd arall ❑	Anhysbys ❑
Cefndir Du arall ❑	Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd ❑	Gwrthod Rhoi Gwybodaeth ❑
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd ❑	Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd ❑	
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistani ❑	Cymysg - Gwyn ac Asiaidd ❑	

Cenedl *(nodwch)* _____

Hunaniaeth genedlaethol *(ticiwch)*

Mae hunaniaeth genedlaethol yn adlewyrchu sut y mae unigolyn yn dewis ei g/weld ei hun, a hyn er enghraifft ar sail diwylliant, iaith, hanes teuluol (gellir dewis hyd at ddau ateb):

Prydeinig ❑	Cymro/Cymraes ❑	Albanwr/wraig ❑	Gwyddel/es ❑
Sais/Saesnes ❑	Arall ❑	Anhysbys ❑	Gwrthod Rhoi Gwybodaeth ❑

Siarad Cymraeg *(ticiwch)*. A ydych yn ystyried eich bod yn:

Siarad Cymraeg yn rhugl ❑ Siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl ❑ Methu siarad Cymraeg ❑

Hoffech chi gael gohebiaeth y Ganolfan yn Gymraeg? Hoffwn ❑ Na hoffwn ❑

Anabledd

Oes gennych anabledd/anhawster dysgu penodol?

Oes ❑ Nac oes ❑

Natur yr anabledd/anhawster dysgu penodol *(ticiwch)*

Dall neu nam ar y golwg ❑	Anableddau niferus ❑
Byddar neu nam ar y clyw ❑	Anhwylder Sbectrwm Awtistig ❑
Anawsterau Symud gan gynnwys defnyddio cadair olwynion ❑	Anhawster dysgu penodol e.e. dislecsia ❑
Nam cymdeithasol/cyfathrebu megis Asperger ❑	Anabledd na restrir uchod ❑
Problemau iechyd meddwl ❑	Anhysbys ❑
Anabledd cudd (e.e. diabetes, epilepsi, y fogfa) ❑	Gwrthod Rhoi Gwybodaeth ❑

A ydych yn derbyn lwfans myfyriwr/wraig anabl?

Ydw ❑ Nac ydw ❑

Cymhwyster uchaf *Ticiwch wrth y cymhwyster uchaf sydd gennych ar yr adeg pan ydych yn ymrestru:*

Lefel O/TGAU ❑	NVQ Lefel 1 ❑	Gradd Gyntaf DG ❑	TAR gyda QTS ❑
Lefel A ❑	NVQ Lefel 2 ❑	Gradd/Tyst. Olraddedig DG ❑	TAR heb QTS ❑
HNC ❑	NVQ Lefel 3 ❑	Gradd Uwch DG ❑	Arall *(nodwch)* ❑
HND ❑	NVQ Lefel 4 ❑	Gradd EU ❑	_____
BTEC ❑	NVQ Lefel 5 ❑	Gradd Dramor ❑	

Profiad blaenorol o Addysg Uwch

A wnaethoch erioed ddechrau Cwrs Addysg Uwch (h.y. yn uwch na Lefel A neu gwrs cyfatebol) yn y DG o'r blaen, ac os felly, a wnaethoch chi fynychu'r cwrs hwn am 6 mis neu fwy?

Do ❑ Naddo ❑

Bagloriaeth Cymru

A wnaethoch chi erioed sefyll Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru?

Do ❑ Naddo ❑

Os do, a wnaethoch chi ennill y cymhwyster hwn?

Do ❑ Naddo ❑

CWBLHEWCH DUDALEN 4

Adran 3 - Mynediad ac Addasiadau Rhesymol i Fyfyrwyr Anabl

Os oes gennych anabledd, oes yna ofynion ynglŷn â mynediad, addasiadau rhesymol neu gymorth ychwanegol y mae eu hangen yn eich barn chi o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd e.e. y cyfle i ddefnyddio lifft, taflenni print bras, darparu rhywun i gymryd nodiadau neu amser ychwanegol ar gyfer asesiadau?

Oes ❑ Nac oes ❑

Os oes, bydd y Ganolfan yn cysylltu â chi ymhellach i drafod eich anghenion, ond er mwyn helpu'r broses, rhowch ddisgrifiad isod o'ch anghenion neu o'r addasiadau rhesymol y mae eu hangen yn eich barn chi:

_____

_____

_____

Gawn ni roi gwybod i'ch tiwtor am eich anabledd ac unrhyw addasiadau rhesymol rydych chi wedi gofyn amdanyn nhw?

Cewch - ar unwaith ❑ Cewch - ar ôl imi drafod gyda'r Ganolfan ❑ Na chewch ❑

Adran 4

Bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Ganolfan ddatblygu a marchnata ei rhaglen yn well yn y dyfodol.

Sut y gwnaethoch chi glywed am y cwrs / cyrsiau?

Prospectws Choices drwy'r Post	❑	Gwefan	❑	Hysbyseb mewn papur newydd lleol	❑
Ar lafar	❑	Ebost	❑	Hysbyseb addysg oedolion	❑
Taflen am gwrs	❑	Hysbyseb ar fws	❑	Facebook/Twitter	❑

Casglu Choices yn bersonol, ble? _____ Arall *(nodwch)* _____

Pam rydych chi'n ymrestru ar y cwrs hwn? *(ticiwch)*

Diddordeb yn y pwnc	❑	Ennill cymhwyster	❑
Er mwyn newid swydd neu gael dyrchafiad	❑	Cymdeithasu a chwrdd â phobl	❑

Arall *(nodwch)*

Adran 5

Darllenwch yr isod a llofnodi'r datganiad. Ni ellir prosesu ffurflenni heb ddatganiad a lofnodwyd ac fe gânt eu dychwelyd er mwyn i chi eu llofnodi.

Bydd yr holl faterion sy'n codi am eich bod wedi cofrestru fel myfyriwr yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr ac maen nhw o dan awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr yn unig. Gall cwynion mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n codi am eich bod wedi cofrestru fel myfyriwr gael eu cyfeirio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, ond dim ond ar ôl i'r gweithdrefnau mewnol gael eu dihysbyddu.

Deddf Diogelu Data 1998 – Mae Prifysgol Caerdydd yn dilyn gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Defnyddir y wybodaeth a gesglir ar y ffurflen hon ar gyfer gweinyddu'r cyrsiau yr ydych yn ymgeisio ar eu cyfer. Gall y Brifysgol ddatgelu'r wybodaeth hon i'r Asiantaeth Ystadegol ar gyfer Addysg Uwch, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

O bryd i'w gilydd hoffem anfon copi o Choices a gwybodaeth atoch drwy'r post am gyrsiau a digwyddiadau ym Mhrifysgol Caerdydd. Os nad ydych am i ni anfon y wybodaeth hon atoch, ticiwch y blwch. ❑

Gawn ni anfon y newyddion diweddaraf am gyrsiau a digwyddiadau Choices atoch drwy'r ebost? Cewch ❑ Na chewch ❑

Datganiad y Myfyriwr

Tystiaf fod y wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn gyflawn ac yn gywir hyd y gwn i. Yr wyf yn derbyn y telerau a'r amodau ymrestru ac yn cytuno i ddilyn rheoliadau Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes.

Llofnod _____ **Dyddiad** _____

Newydd

A wnaethoch chi astudio yn y Ganolfan yn ystod y flwyddyn academaidd 2010-11? Os felly, a fyddech yn hoffi ymrestru ar gynllun aelodaeth y Ganolfan AM DDIM? Byddwn ❑ Na fyddwn ❑ Ansicr. Anfonwch fanylion pellach ❑

D.S. (Bydd aelodaeth aelodau cyfredol yn cael ei adnewyddu'n awtomatig os ydynt yn dychwelyd i astudio yn 2011-12)